- b) Yn ystod y broses asesu, mae Economegydd yn craffu ar bob achos busnes sy'n dod i law er mwyn sicrhau her gadarn i werth am arian y prosiectau, ac mae hynny'n cynnwys ystyried costio oes gyfan a chanfod gostyngiadau posibl i'r costau o ganlyniad i'w hadeiladu. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda'n Heconomegwyr i gynnal tri digwyddiad Hyfforddiant ar yr Achos Economaidd ar gyfer ein partneriaid cyflenwi. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad, a hynny yng Nghaerfyrddin a Llandudno, a chynhelir digwyddiad arall ym Merthyr Tudful ar 11 Rhagfyr.
- c) Mae'r adolygiad ôl-feddiannaeth yn cael ei dreialu, a disgwylir ei roi ar waith yn ehangach erbyn Gorffennaf 2018. Mae'r adolygiad yn cynnwys canfod y defnydd a ddisgwylir o ynni, a'r defnydd gwirioneddol o ynni, er mwyn sicrhau bod yr arbedion disgwylidig yn digwydd.

Argymhelliad Saith

Mae dadansoddiad o gostau prosiectau Band A sydd wedi'u cwblhau yn dangos bod amrywiad arwyddocaol yng nghyfansymiau'r costau a hefyd o ran costau TGCh a gosodion, ffitiadau a chyfarpar. Mae ysgolion newydd wedi mynd 7-10% dros bwynt uchaf y safonau ar gyfer y diwydiant. Mae rhai prosiectau'n defnyddio dull a elwir yn Fodelu Gwybodaeth am Adeiladau yn y cyfnodau dylunio ac adeiladu a dangoswyd bod hyn yn arbed ar amser a chostau yn ogystal â gwella ansawdd. Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes er mwyn:

- a. dod i gytundeb â chynghorau, partneriaid eraill a chynrychiolwyr diwydiant ar yr opsiynau ar gyfer mabwysiadu mwy o safoni yn y prosiectau gan gynnwys arwynebeddau llawr ac elfennau adeiladu;**
- b. ei gwneud yn ofynnol i'r dull Modelu Gwybodaeth am Adeiladau gael ei ddefnyddio mewn prosiectau yn y rhaglen;**
- c. darparu canllawiau manylach am lefel y TG a'r gosodion, y ffitiadau a'r cyfarpar y gellir ei hariannu drwy'r rhaglen er mwyn sicrhau cysondeb rhwng prosiectau.**

Ymateb: Derbyn

Dyddiad Cwblhau: Mawrth 2019

- a) Daethpwyd i gytundeb â phartneriaid ymysg awdurdodau lleol ar y maint safonol a'r gost ar gyfer ysgolion newydd a fydd yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru o fewn y Rhaglen. Mae'r safon yn seiliedig ar y meintiau a ragnodir gan BB98 a 99. Mae'r gost fesul metr sgwâr yn cynnwys yr holl waith uwchben y ddaear, ynghyd â'r isadeiledd, y costau dylunio a'r gwaith allanol. Y gost fesul metr sgwâr yw £2,500 (costau 2016). Mae'r gwaith yn cael ei ymestyn er mwyn canfod cost safonol ar gyfer addysg bellach, sydd â mwy o amrywiaeth yn y mathau o adeiladau sydd eu hangen i ddarparu dysgu academiaidd a galwedigaethol.
- b) Rydyn ni'n cytuno i gynnwys y gofyniad ar gyfer Modelu Gwybodaeth am Adeiladau, a bydd Rhaglen Band B yn cael ei datblygu ar y sail honno. Mae'r sefyllfa'n cael ei hystyried ar lefel Llywodraeth Cymru gyfan, ac rydyn ni wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â hyn cyn gynted ag y bo modd.
- c) Rydyn ni wedi darparu canllawiau am y buddsoddiad uchaf i bob disgybl y gellir ei ariannu o'r Rhaglen ar gyfer gosodion, ffitiadau a chyfarpar a TG. Y gyfradd fesul disgybl yw £1,100 ar gyfer gosodion, ffitiadau a chyfarpar, a £500 ar gyfer TG, yn seiliedig ar brisiau 2016. Y rheswm dros gymhwyso'r gost fesul disgybl, yn hytrach na manyleb, yw mai dyma bolisi'r awdurdodau lleol / Sefydliadau Addysg Bellach. Hefyd, gan fod Technoleg Gwybodaeth yn faes sy'n symud yn gyflym, mae'n debygol y byddai canllawiau o'r fath yn dyddio'n sydyn.

Argymhelliad Wyth

Cafwyd tystiolaeth nad yw'r fframweithiau caffael rhanbarthol yn gweithredu fel y bwriadwyd, bod rhywfaint o ddyblygu ac nad yw cynghorau'n mabwysiadu arferion da mewn dulliau caffael. Dylai Llywodraeth Cymru:

- a. sicrhau bod cynghorau'n mabwysiadu arferion da cydnabyddedig yn y dull o adeiladu, gan ragdybio o blaid dylunio ac adeiladu (ac eithrio prosiectau sy'n cael eu hariannu drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol);**
- b. cyfathrebu'n well â diwydiant ar amseriad a graddfa debygol y gwaith o dan y fframweithiau;**

- c. **deall a rhoi sylw i'r rhesymau y mae rhai cynghorau'n cynnal ymarferiadau cyn tendro er bod contractwyr eisoes wedi mynd drwy'r un broses i gael eu derbyn i'r fframweithiau;**
- d. **cydweithio â rhanddeiliaid, gan gynnwys cynghorau a'r diwydiant adeiladu, wrth ddatblygu a chwblhau'r fframweithiau caffael yn sgil y newidiadau ar gyfer Band B.**

Ymateb: Derbyn

Dyddiad Cwblhau: Mawrth 2019

- a) Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi mabwysiadu safonau gofod a chostau i annog yr arferion gorau gan awdurdodau lleol, ac rydyn ni'n gwella'r gwaith mewn partneriaeth er mwyn cadw'r wybodaeth ar y prosiectau sydd ar y gweill yn gyfoes a cheisio tynnu sylw at brosiectau sydd ar y gweill ar ein gwefan. Rydyn ni'n hapus i annog dull 'dylunio ac adeiladu', ond rydyn ni'n cydnabod na fydd hyn yn briodol i bob awdurdod.
- b) Ymgysylltwyd â'r diwydiant ym mis Hydref mewn perthynas â'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, gan gyfeirio at y Rhaglen gyfalaf. Ymgysylltir eto ar ôl mapio gofynion cyllidebol buddsoddiad Band B (yn dilyn gwybodaeth gan Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Addysg Bellach am eu hamserlenni arfaethedig ar gyfer cyflawni'r prosiectau).
- c) Ar ôl ymgysylltu'n ddiweddar, ymddengys fod nifer o resymau pam byddai rhai awdurdodau'n eisiau cynnal ymarferiadau cyn-tendro. Mae'r un mwyaf cyffredin yn digwydd pan ddymunir sypio cynlluniau. Mae'r ymarferiad yn sicrhau nad oes heriau wrth gaffael os penderfynir ar y llwybr hwn. Rydyn ni'n parhau i weithio gyda'n partneriaid i ddeall y gwahanol lwybrau caffael sydd ar gael o fewn y fframweithiau cyfredol, a byddwn yn gweithio gyda'r Fframweithiau i ddeall a oes angen gwneud unrhyw newidiadau er mwyn gallu sypio heb y cam ychwanegol hwn.
- d) Byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod y fframweithiau caffael yn briodol ar gyfer ein Rhaglen Band B. Bydd hyn yn golygu cael tystiolaeth gan awdurdodau a gan y Fframweithiau cyfredol.

Argymhelliad Naw

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu'n gliriach nag o'r blaen y buddion y mae am eu sicrhau drwy'r rhaglen. Mae wedi sefydlu set o dargedau ar wahân ar gyfer y gadwyn gyflenwi leol, prentisiaethau a hyfforddiant, ac ymgysylltu ag ysgolion ar bynciau STEM.

Mae hefyd yn glir mai un flaenoriaeth ar gyfer y dyfodol fydd cael mwy o ddefnydd o'r adeiladau ysgol gan y gymuned. Er mwyn cael rhagor o fuddion ehangach o fuddsoddi yn y rhaglen, dylai Llywodraeth Cymru:

- a. **sicrhau bod ei thargedau ar gyfer prosiectau'n ymestyn dros amser;**
- b. **hyrwyddo arferion da wrth sicrhau buddion i'r gymuned, er enghraifft, drwy ddiweddarau gwefan Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn rheolaidd, rhwydweithiau rhanbarthol a digwyddiadau diwydiant;**

- c. **asesu i ganfod sut y gellir delio â'r rhwystrau a nodwyd rhag cael rhagor o ddefnydd o adeiladau ysgol gan y gymuned yn ystod Band B y rhaglen.**

Ymateb: Derbyn

Dyddiad Cwblhau: Mawrth 2019

- a) Rydyn ni'n cytuno y dylai'r targedau barhau'n ymestynol, a chaiff y rhain eu hadolygu dros amser.
- b) Er mwyn hwyluso'r dasg o rannu'r arferion gorau, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal tair seminar ym mis Mai, a hynny mewn partneriaeth ag Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n partneriaid am nifer o bynciau, gan gynnwys manteision cymunedol. Roedd y seminarau'n gyfle hefyd i rwydweithio a rhannu'r arferion gorau. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i hyrwyddo dull cyson, ac mae ein gwefan yn cael ei diweddarau ar gyfer cyhoeddi deunyddiau ychwanegol yn ymwneud â'r arferion gorau a chanllawiau wedi'u diweddarau.
- c) Mae cael y gymuned i ddefnyddio mwy ar adeiladau ysgolion yn flaenoriaeth a nodir ym Mand B, gydag Amcan Buddsoddi i wella hyblygrwydd asedau. Mae datganiadau ar gyfer prosiectau Band B yn cael eu datblygu, a byddwn ni'n parhau i weithio gyda phartneriaid er mwyn goresgyn rhwystrau diwylliannol ac ymarferol rhag defnyddio mwy ar asedau. Gallai hyn gynnwys amrywiaeth o gamau, gan gynnwys dylunio ysgolion i ddarparu mynedfa wahanol ar gyfer y gymuned, a chyflwyno cymalau 'cymryd yn ôl' mewn contractau fel bod unrhyw gyllid ychwanegol sy'n cael ei ddarparu ar gyfer lle cymunedol yn gallu cael ei gymryd yn ôl os na chaiff ei ddefnyddio ar gyfer hynny.

Gwnaethpwyd gwaith hefyd i ganfod gwaith ehangach gan Lywodraeth Cymru a allai gyfrannu at ddefnydd cymunedol o asedau, a hynny cyn cynlluniau i greu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i fynd i'r afael â'r arferion gorau; symud rhwystrau; a chyllido.

Argymhelliad Deg

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu trefniadau cymorth technegol i'r rhaglen. Mae wedi cynyddu gallu ei dîm ei hun drwy recriwtio arbenigwyr ym maes cyllid cyhoeddus-preifat. Mae hefyd yn sefydlu contractau fframwaith i roi cymorth technegol i gynghorau. O ystyried y newidiadau technegol a wneir i'r rhaglen o dan Fand B dylai Llywodraeth Cymru, ar ddiwedd 2018, adolygu'r trefniadau'n llawn er mwyn:

- a. **sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru yr arbenigedd technegol angenrheidiol er mwyn rheoli'r rhaglen a'i goruchwyllo; a**
- b. **sicrhau bod gan gynghorau'r cymorth technegol angenrheidiol er mwyn cynllunio'r rhaglen a'i chyflwyno'n lleol.**

Ymateb: Derbyn

Cwblhau: Rhagfyr 2018

- a) Penodwyd cynghorydd technegol o Awdurdod Lleol Bro Morgannwg i roi cyngor ar ddatblygiad Rhaglen Band B, yn enwedig o ran y Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

- b) Cynhaliwyd mini-dendr i sicrhau cymorth technegol ar gyfer y Model Buddsoddi Cydfuddiannol ac elfennau cyfalaf y Rhaglen. Methodd yr ymarferiad â sicrhau ymgynghoriaeth i ddarparu cymorth technegol. O ganlyniad i hynny, cynhaliwyd proses OJEU lawn i sicrhau cymorth technegol ar gyfer y Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Aeth y contract allan i dendr, ac mae'r cynigion yn cael eu hasesu. Bydd cymorth technegol ar gyfer yr elfen gyfalaf o'r Rhaglen yn cael ei asesu drwy gontractau sy'n bodoli eisoes yn y Fframwaith, a sefydlwyd yn fewnol er mwyn gallu cael mynediad at gymorth technegol. Caiff y trefniadau hyn eu hadolygu ar ddiwedd 2018 er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif

DYDDIAD 10 Tachwedd 2017

GAN Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Ar 26 Medi, cyhoeddais fy Nghynllun Gweithredu newydd ar gyfer Addysg yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn nodi ein cenhadaeth genedlaethol, a fydd yn arwain at roi cwricwlwm newydd sbon ar waith, gan ganolbwyntio ar arwain, dysgu proffesiynol, a system sy'n gwella ei hun.

Fy nod yn y pen draw yw codi safonau addysgol i bawb, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a darparu system addysg sy'n ennyn hyder a balchder y genedl gyfan.

I wireddu'r uchelgais hon, rhaid inni oresgyn y rhwystrau a chefnogi dysgu drwy ddarparu ysgolion a cholegau sy'n addas i'r diben, sydd y maint cywir, yn y lleoliad cywir, ac yn meddu ar y cyfleusterau cywir i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Ein Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yw'r ffordd ymlaen o ran hyn, ac mae'n cynrychioli'r buddsoddiad mwyaf i'n hysgolion a'n colegau ers yr 1960au.

Datblygwyd y Rhaglen mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Colegau Cymru, a Chyfarwyddwyr yr Esgobaethau. Bydd y don gyntaf o gyllid a roddir drwy'r Rhaglen yn arwain at fuddsoddi mwy na £1.4 biliwn dros gyfnod o bum mlynedd a fydd yn dod i ben yn 2019. Bydd yr arian yn cefnogi'r gwaith o ailadeiladu ac ailwampio dros 150 o ysgolion a cholegau ymhob cwr o Gymru.

Er hynny, mae angen gwneud mwy. Mae'n bleser felly cyhoeddi y bydd ail don o gyllid yn cael ei fuddsoddi drwy'r Rhaglen, a bydd hynny'n dechrau ym mis Ebrill 2019.

Yn yr un modd â'r buddsoddiad cyntaf, bydd yr ail fuddsoddiad, Band B, yn cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill. Bydd y rhan fwyaf o'r Rhaglen yn cael ei hariannu o gyllidebau cyfalaf. Fodd bynnag, yn wahanol i don gyntaf y Rhaglen, bydd ymgais yn y don nesaf i gynnwys buddsoddiad ychwanegol sydd â gwerth cyfalaf o tua £500m a ariennir drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Mae Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Addysg Bellach wedi cynnig gwerth £2.3 biliwn o

broiectau, sy'n bodloni amcanion buddsoddi Band B y Rhaglen. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i gefnogi pob un o'r prosiectau hyn, yn amodol ar gymeradwyo'r achosion busnes.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid i gytuno ar amserlen ar gyfer eu prosiectau, gan gyflwyno cynlluniau buddsoddi fforddiadwy sydd hefyd yn cyd-fynd â'n huchelgais ni oll i greu amgylcheddau dysgu cynaliadwy sy'n diwallu anghenion ein cymunedau.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Huw Vaughan Thomas
Auditor General for Wales
Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff
CF11 9LJ

6 November 2017

Dear Huw

Response to the Report of the Wales Audit Office on the Public Procurement in Wales

The Welsh Government is committed to optimising the value of Welsh public sector procurement. Effective procurement is integral to delivery of good quality front line public services and can also have a profound impact on the economy and communities of Wales.

The Welsh Government is pleased to have supported public bodies in Wales to grow their capability to secure improved outcomes through procurement. There is continued focus on building on the progress achieved and to maximise any opportunities which may be presented by the UK's departure from the EU, as well as taking advantage of the potential afforded by the Wellbeing of Future Generations Act.

The findings of the Public Procurement in Wales report are welcomed. I am pleased to offer the following response at Annex A to the seven recommendations contained within the report. I hope that this is helpful.

Yours sincerely

Sue Moffatt



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Ty Afon
Bedwas Road
Bedwas
Caerphilly
CF83 8WT

Ffôn • Tel 03000 253774
sue.moffatt@gov.wales
Gwefan • website:
www.wales.gov.uk

Annex A

Recommendation 1

We recommend that the Welsh Government:

- **encourage public bodies to review the accuracy of the data that they provide for the Collaborative Spend Analysis project, reflecting on the issues identified in the course of our work; and**
- **explore with the further education sector and the missing Welsh Government sponsored bodies why they will not engage with the Collaborative Spend Analysis project, with the aim of all public bodies participating in 2017-18.**

Accepted

Welsh Government will review its guidance for engagement with the spend analysis project and emphasise to participating organisations the importance of verifying the accuracy of the data provided.

The 2017-18 spend analysis exercise is already underway. An invitation has been extended to the Further Education sector to participate in the exercise. Engagement with the sector will be organised to clarify the opportunities for colleges to benefit from the data analysis exercise. Opportunities for engaging Welsh Government sponsored bodies in the exercise will be explored.

Timescale and Lead

Sue Moffatt, Commercial Director, Welsh Government
31 December 2017

Recommendation 2

In taking forward its plans to merge the national Procurement Board with the National Procurement Service Board we recommend that the Welsh Government:

- **clearly sets out, for example on its website, the accountability and governance structure for public procurement in Wales, particularly in relation to the role and remit of the revised national Procurement Board arrangements; and**
- **invite representation from Welsh Government Sponsored Bodies, the Office of the Future Generations Commissioner, the third sector and from public bodies in North Wales.**

Accepted

Governance of procurement will be addressed as a part of the work to refocus the National Procurement Service and Value Wales, as announced in the Written Statement issued by the Cabinet Secretary for Finance and Local Government on 21 September.

Timescale and Lead

Jonathan Hopkins, Deputy Director, Value Wales
30 June 2018

Recommendation 3

We recommend that public bodies review their procurement strategies and policies during 2017-18 and on an annual basis thereafter to ensure that they reflect wider policy and legislative changes and support continuous improvement.

Accepted

Public sector customer feedback has indicated a desire to work with Welsh Government to develop a new approach to procurement fitness checks. As part of this process, Welsh Government can provide the necessary support to enable public bodies to put in place, maintain and update current and relevant procurement strategies.

Timescale and Lead

Jonathan Hopkins, Deputy Director, Value Wales
31 October 2018

Recommendation 4

In rolling out a new round of (procurement fitness) checks, we recommend that the Welsh Government:

- **ensure that the Procurement Fitness Checks are carried out consistently to allow for more effective benchmarking;**
- **provide guidance to public bodies on the expectations for follow-up self-assessments;**
- **work with the national Procurement Board to analyse the results and identify action that can be taken at a national level to support further improvement;**
- **include an assessment of where public bodies stand in relation to procurement policy statement recommendations – for example, that there should be a minimum of one procurement professional per £10 million of procurement spend across the wider public sector.**

Accepted

Public sector customers have advised that they wish to work with Welsh Government to develop a new approach to delivery of procurement fitness checks through a new programme for procurement. This collaborative approach, coupled with new governance arrangements, will support enhanced fitness checks and a capability development programme to deliver a new pipeline of procurement staff and develop the leadership capability which can grow procurement and commercial talent across Wales.

Timescale and Lead

Jonathan Hopkins, Deputy Director, Value Wales
31 October 2018

Recommendation 5

We recommend that the Welsh Government update its community benefits toolkit, including taking account of the WFG Act and building on lessons learned from current practice across Wales such as the use of community benefits champions.

Accepted

This work is in hand. A series of pilots are being facilitated by Welsh Government to enable public bodies to embed WFG in procurement and develop an on line system to capture the reporting of benefits.

Timescale and Lead

Jonathan Hopkins, Deputy Director, Value Wales
30 June 2018

Recommendation 6

The Welsh Government should explore with public sector partners the impact of differential pay for procurement staff across different sectors and any potential solutions.

Accepted

Customers have advised that they wish to work with Welsh Government to develop a future procurement capability programme. A future capability programme can be used as the vehicle for establishing an approach to understanding the scale of the issue and considering and developing joint solutions to addressing this recommendation.

Timescale and Lead

Jonathan Hopkins, Deputy Director, Value Wales
31 October 2018

Recommendation 7

We recommend that the Welsh Government better promote the use of the SQUID to public bodies and assess its use as part of the procurement fitness checks.

Accepted

SQUID is a standardised approach to supplier selection and its use may not be easily identified through procurement fitness checks. As part of the work to review of

National Procurement Service and Value Wales, a survey will be developed to establish the extent to which public bodies are using the SQuID and to clarify any support required to further embed its use.

Timescale and Lead

Jonathan Hopkins, Deputy Director, Value Wales
30 April 2018

The timescales indicated for addressing each recommendation are best informed forecasts at this stage, pending the impact of the work to re-focus the National Procurement Service and Value Wales, announced by the Cabinet Secretary for Finance and Local Government on 21 September.

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol
â Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnwys Steve Ashcroft, Nigel Blewitt,
Matthew Brushett, Jeremy Morgan a Seth Newman o dan gyfarwyddyd Matthew Mortlock.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG.

Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Crynodeb	6
Argymhellion	13
Roedd gwendidau yn natblygiad y cynllun busnes ar gyfer GCC, gan gynnwys modelu'r gofynion staffio ynghyd â sgôp tebygol a dylanwad GCC	15
Dengys ffigurau dangosol fod cyrff cyhoeddus wedi gwario £234 miliwn drwy GCC yn 2016-17, £222 miliwn ohono wedi'i wario gan aelodau GCC	20
Ym Mehefin 2017, roedd gan GCC 57 o fframweithiau byw er mai prin y defnyddiwyd rhai ohonynt er iddynt fod yn fyw ers cryn amser.	23
Nid yw'r system i optio allan o fframweithiau GCC yn gweithio ac mae aelodau GCC yn defnyddio cytundebau consortia neu gyrff prynu cyhoeddus eraill sy'n darparu mwy neu lai'r un fath o nwyddau, gwasanaethau a gwaith	28
Mae defnydd llai na'r disgwyl o'r fframweithiau wedi cael effaith sylweddol ar incwm GCC gan olygu nad yw'n hunan-gynhaliol ac nad yw eto wedi gallu ad-dalu'r benthyciad buddsoddi-i-arbed a dderbyniodd gan Lywodraeth Cymru tuag at ei sefydlu.	35
Mae GCC wedi adrodd y bydd ei arbedion caffael ac ariannol yn creu manteision ehangach i economi Cymru ond mae'r ffigurau arbedion yn llai na'r disgwyl	38
Er bod y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn cefnogi GCC mewn egwyddor, dim ond traean o'r aelodau oedd yn fodlon â'r gwasanaeth ac roedd pryderon ynghylch pa mor gystadleuol oedd y fframweithiau, gwireddu'r manteision ehangach a gallu cwrdd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol	43
Mae rhai cyrff cyhoeddus yn poeni nad yw GCC yn ddigon annibynnol i Lywodraeth Cymru	47

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau archwilio	50
Atodiad 2 – Y defnydd o fframweithiau GCC yn 2015-16 a 2016-17	53

Crynodeb

- 1 Ym mis Tachwedd 2013 sefydlodd Llywodraeth Cymru'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) fel corff prynu cyhoeddus¹. Y prif amcan yw 'prynu unwaith i Gymru' ar ran y sector cyhoeddus mewn meysydd gwariant cyffredin ac ailadroddus a gwreiddio Datganiad Polisi Caffael Cymru² o fewn pob contract a fframwaith. Llywodraeth Cymru yw'r corff sy'n trefnu GCC.
- 2 Mae GCC yn un o'r tri phrif gonsortia caffael a chyrff prynu cyhoeddus yng Nghymru. Y lleill yw Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) a Chonsortium Prynu Addysg Uwch Cymru (HEPCW). Sefydlwyd GCC i weithio gyda'r consortia caffael a chyrff prynu cyhoeddus Cymreig eraill hyn, yn hytrach na chystadlu gyda nhw. Mae swyddogaethau Consortium Prynu Cymru³, a ddaeth i ben yn 2016, hefyd wedi eu trosglwyddo i GCC. Roedd GCC yn cyflogi 44 o staff (41 o swyddi cyfwerth ag amser llawn) ym mis Mehefin 2017.
- 3 Mae 73 o gyrff cyhoeddus wedi cofrestru fel aelodau o GCC ar draws gwahanol sectorau (**Ffigwr 1**). Gwahoddwyd cyrff cyhoeddus ar draws Cymru i gofrestru fel aelodau o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol am bum mlynedd. Yr hyn a gynigiwyd oedd y byddai GCC yn darparu fframweithiau a chontractau am nwyddau a gwasanaethau gwariant cyffredin ac ailadroddus yn gyfnewid am ymrwymiad gan y cyrff cyhoeddus i brynu drwy ei fframweithiau a'i gontractau (**Blwch 1**).

- 1 Mae corff prynu cyhoeddus yn darparu ystod eang o fframweithiau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau y gellir eu defnyddio ar draws y sector cyhoeddus ac i gefnogi caffael cydweithredol. Consortium prynu yw dau sefydliad annibynnol, neu fwy, sy'n dod at ei gilydd yn ffurfiol neu'n anffurfiol, neu drwy drydydd parti annibynnol, i gyfuno eu gofynion unigol i gaffael nwyddau a gwasanaethau.
- 2 Mae datganiad polisi caffael Llywodraeth Cymru'n gosod allan y prif egwyddorion ar gyfer caffael cyhoeddus, yng nghyd-destun deddfwriaeth gaffael berthnasol yr UE a'r DU. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r datganiad cyntaf yn 2012 a'i ddiweddarau yn 2015.
- 3 Roedd Consortium Prynu Cymru'n cynnwys 16 awdurdod lleol yng Ngorllewin, De a Chanolbarth Cymru i ddarparu trefniadau caffael cystadleuol, rhannu arferion gorau ac i ddatblygu a mabwysiadu cyfres o ddogfennau caffael safonol. Roedd pob awdurdod yn y Consortium yn trefnu fframweithiau neu gontractau ar ran pob un o'r 16 awdurdod lleol. Daeth Consortium Prynu Cymru i ben ar 31 Mawrth 2016.

Tudalen y pecyn 91

Blwch 1 – Defnydd GCC o fframweithiau

Drwy ddefnyddio fframweithiau gall cyrff cyhoeddus brynu nwyddau a/neu wasanaethau gan gyflenwyr ar delerau contract, prisiau a lefelau gwasanaeth a gytunwyd ymlaen llaw ac a ddiffiniwyd i gwrdd ag anghenion y cyrff. Maent yn ffordd syml o brynu'r cynhyrchion a'r gwasanaethau mwyaf priodol ac sy'n cynnig y gwerth gorau heb orfod cyflawni proses gaffael lawn yr UE. Gyda'r rhan fwyaf o fframweithiau, rhaid i gyrff cyhoeddus gynnal mini-gystadleuaeth (yn ôl y gofyn) rhwng y cyflenwyr ar y fframwaith.

Mae GCC wedi sefydlu systemau prynu deinamig, proses dendro electronig ar gyfer dewis cyflenwyr sy'n gallu ymuno â'r system dros amser os ydynt yn cwrdd â'r safonau gwasanaeth gofynnol. Mae GCC hefyd wedi sefydlu contractau yn ôl y galw ar gyfer ei aelodau.

- 4 Mae Bwrdd GCC yn goruchwyllo cyfeiriad strategol GCC (**Ffigwr 1**). Mae gan GCC hefyd Grŵp Cyflawni ar wahân sy'n gyfrifol am gadw llygad ar faterion gweithredol ac sy'n atebol i Fwrdd GCC. Ynghyd ag agweddau eraill ar drefniadau llywodraethu GCC, mae'r Grŵp Cyflawni a'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith yr holl sefydliadau sy'n aelodau o GCC⁴. Bwriad Llywodraeth Cymru yw uno Bwrdd GCC a'r Bwrdd Caffael Cenedlaethol i sicrhau nad yw'r ddau fwrdd yn gorgyffwrdd ac i leddfu unrhyw ddryswch posib ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau.

4 Mae GCC wedi pwysleisio i ni bod y lefel o gynnwys cwsmeriaid yn ei drefniadau llywodraethu'n wahanol i'r hyn sy'n digwydd mewn cyrff prynu cyhoeddus eraill yn y DU.

Ffigur 1: trefniadau llywodraethu GCC

Trefniadau llywodraethu GCC

Bwrdd GCC	Yn goruchwyllo cyfeiriad strategol GCC ac yn cynnwys ystod o gynrychiolwyr o wahanol sectorau.
Cyfarwyddwr GCC	Yn gyfrifol am staff a gweithrediadau GCC, yn atebol i Fwrdd GCC. Hefyd yn cyflawni'r rôl o Gyfarwyddwr Masnachol ar gyfer Llywodraeth Cymru.
Grŵp Cyflawni GCC	Yn goruchwyllo materion gweithredol – gan gynnwys cymeradwyo rhaglen waith a strategaethau caffael penodol GCC – ac yn atebol i Fwrdd GCC. Mae'r grŵp yn cynnwys, ac wedi'i gadeirio gan, gynrychiolwyr sector. Mae'r cynrychiolwyr sector yn cynnwys pum cynrychiolydd o lywodraeth leol ac un o sectorau eraill. Mae Cadeirydd y Grŵp Cyflawni'n eistedd ar Fwrdd GCC.
Fforymau Categoriâu GCC	Yn gyfrifol am ddatblygu strategaethau caffael ar gyfer categorïau o nwyddau a gwasanaethau – gan gynnwys ymgynghori â'r sefydliadau sy'n aelodau – cyn eu cymeradwyo gan y Grŵp Cyflawni. Mae'r aelodaeth yn cynnwys staff caffael a thechnegol y cwsmeriaid.
Llywodraeth Cymru	Y corff sy'n trefnu'r gwasanaeth ac yn darparu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau cymorth sydd eu hangen ar GCC.
Sefydliadau sy'n aelodau o GCC	Y 73 aelod yw: pob un o'r 22 awdurdod lleol, pob un o 10 corff y GIG yng Nghymru, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yr heddlu a'r gwasanaethau tân ac achub, a sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach.
Cwsmeriaid eraill GCC (nad ydynt yn aelodau)	Unrhyw gorff cyhoeddus neu gorff trydydd sector sy'n dymuno defnyddio fframweithiau a chontractau GCC ond yn ddi-ymrwymiad. Mae sefydliadau heb fod yn aelodau sy'n prynu drwy GCC wedi cynnwys ystod o gyrff cyhoeddus datganoledig, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru. Maen nhw hefyd wedi cynnwys rhai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, cyrff trydydd sector eraill a rhai asiantaethau llywodraeth heb eu datganoli.

Ffynhonnell: Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

- 5 Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi archwilio i weld a yw GCC yn helpu i roi gwerth am arian mewn gwariant cyhoeddus ac a yw'n barod at y dyfodol. Roedd ein harchwiliad o GCC yn rhan o adolygiad ehangach o gaffael cyhoeddus. Yng nghamau cynnar yr adolygiad ehangach hwnnw, lleisiodd rai cyrff cyhoeddus bryderon penodol am ddatblygiad a pherfformiad GCC. Adroddwn y canfyddiadau o'r adolygiad ehangach hwnnw mewn adroddiad ar wahân⁵. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried materion yn ymwneud â GCC yn fwy manwl. Mae **Atodiad 1** yn rhoi mwy o fanylion am ddulliau ein harchwiliad.
- 6 **Dengys y ffigurau dangosol fod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn 2016-17 wedi gwario £234 miliwn drwy fframweithiau a contractau GCC, £222 miliwn ohono'n ymwneud â sefydliadau sy'n aelodau o'r gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw cyrff cyhoeddus yn defnyddio fframweithiau GCC cymaint â'r disgwyl gan arwain at bryderon ynghylch ei ariannu, arbedion llai na'r disgwyl – adroddwyd £14.8 miliwn yn 2016-17 – a llawer o'i aelodau'n anfodlon.** Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi trosolwg byr ar ein prif ganfyddiadau.
- 7 Roedd gwendidau gyda datblygu achos busnes GCC, oedd ddim yn cydymffurfio'n llwyr â gweithdrefnau arferol Llywodraeth Cymru. Roedd gwendidau sylweddol hefyd yn ei gynnwys, gan gynnwys modelu'r gofynion staffio ynghyd â sgôp tebygol a dylanwad GCC. Ers hynny mae GCC wedi edrych eto ar rai o'r rhagbybiaethau yn yr achos busnes.
- 8 Ar sail dadansoddiad o wariant 2010-11, roedd yr achos busnes gwreiddiol yn amcangyfrif y gallai GCC ddylanwadu ar £522 miliwn o wariant caffael cyhoeddus ar nwyddau, gwasanaethau a gwaith cyffredin ac ailadroddus penodol. Roedd yr achos busnes yn rhagdybio y byddai GCC yn tyfu'n gyflym ac y gellid cyrraedd y targed gwariant pan fyddai'r holl fframweithiau a'r contractau'n mynd yn fyw erbyn 1 Ebrill 2016. Yn ei gynllun busnes Mai 2015 am y cyfnod rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2019, roedd GCC yn rhoi'r ffigur hwn ar £2.2 biliwn o wariant blynyddol o'r 1 Ebrill 2016 ymlaen. Mae rhai cyrff cyhoeddus wedi lleisio pryder bod y targed gwariant uwch yn ddim ond ymgais gan GCC i gynyddu incwm. Fodd bynnag, mae GCC wedi pwysleisio bod Grŵp Cyflawni GCC wedi cytuno i'r camau a gymerodd ar ôl i'r Fforymau Categori eu hystyried.

5 Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Caffael Cyhoeddus yng Nghymru**, Hydref 2017.

- 9 Yn 2015-16 gwariodd aelodau GCC £149m drwy fframweithiau a chontractau wedi eu rheoli gan GCC, yn erbyn amcan-uchafswm gwariant posib o £1.1 biliwn (ar sail cynllun busnes 2015). Gwariodd y sefydliadau nad ydynt yn aelodau £4 miliwn drwy GCC yn 2015-16, gan roi cyfanswm gwariant o £153 miliwn. Dengys y ffigurau dangosol ar gyfer 2016-17 gynnydd o 53% mewn gwariant i £234 miliwn drwy fframweithiau a chontractau GCC, £222 miliwn ohono'n ymwneud â sefydliadau sy'n aelodau o'r gwasanaeth⁶. Fodd bynnag, roedd y gwariant gan y cyrff sy'n aelodau ond yn 10% o'r gwariant targed o £2.2 biliwn yng nghynllun busnes 2015. Mae'r cyfanswm gwariant uwch drwy GCC yn 2016-17 yn bennaf oherwydd fframwaith cynhyrchion a gwasanaethau TG newydd (gwerth £37 miliwn). Dengys y ffigurau hefyd gynnydd o £28m mewn gwariant ar fframwaith nwy a thrydan sy'n seiliedig ar fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron ond a reolir gan GCC.
- 10 Ym mis Mehefin 2017 roedd gan GCC 57 o fframweithiau byw. Cawsom fod amrywiad eang yn y defnydd a wnaed o fframweithiau unigol gan aelodau unigol o GCC yn 2015-16 a 2016-17 (**Atodiad 2**). Mae'r patrwm hwn yn awgrymu bod GCC gryn bellter i ffwrdd o'i brif amcan o 'brynu unwaith i Gymru'. Yn 2016-17, roedd pedwar fframwaith yn cyfrif am bron i dri-chwarter yr holl wariant drwy GCC. Prin y defnyddiwyd rhai fframweithiau er iddynt fod yn fyw ers cryn amser. Cawsom hefyd nad yw'r system i optio allan o fframweithiau GCC yn gweithio a bod aelodau GCC yn defnyddio cytundebau consortia neu gyrff prynu cyhoeddus eraill sy'n darparu mwy neu lai'r un fath o nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Yn ddiweddar mae GCC ei hun wedi adnabod gwariant o £60m gan ei aelodau drwy fframweithiau Gwasanaethau Masnachol y Goron⁷ a allai gael eu darparu drwy fframweithiau GCC.
- 11 Mae defnydd llai na'r disgwyl o'r fframweithiau wedi cael effaith sylweddol ar incwm GCC gan olygu nad yw'n hunan-gynhaliol ac yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru am gymorth ariannol. O ganlyniad, nid yw GCC eto wedi gallu ad-dalu'r benthygiad buddsoddi-i-arbed o £5.92 miliwn a dderbyniodd gan Lywodraeth Cymru tuag at ei sefydlu. Roedd CC wedi bwriadu dechrau ad-dalu drwy'r gwarged y gobeithiai y byddai ganddo o'r 1 Ebrill 2016 ymlaen drwy godi ad-daliad gorfodol o 0.45% ar gyflenwyr. Yn 2016-17 dim ond £0.9 miliwn o incwm a wnaeth GCC, yn erbyn costau gweithredu o £2.8 miliwn.

6 Ni ddangosodd rhai fframweithiau unrhyw wariant yn 2015-16 a 2016-17. Nid yw GCC wedi gallu penderfynu a oedd hyn oherwydd na dderbyniodd wybodaeth reoli gan gyflenwyr neu oherwydd na ddefnyddiwyd y fframweithiau hyn. Mae GCC yn gweithio i ddatrys hyn. Dengys y ffigurau dangosol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill a'r 31 Awst 2017 fod gwariant o £79m o leiaf wedi digwydd drwy fframweithiau GCC. Mae hyn yn gynnydd o 60% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2016-17.

7 Mae Gwasanaeth Masnachol y Goron (CCS) yn asiantaeth weithredol a noddir gan Swyddfa'r Cabinet sy'n dod â pholisi, cyngor a phrynu uniongyrchol at ei gilydd; i ddarparu gwasanaethau masnachol i'r sector cyhoeddus ar draws y DU. Defnyddiwyd fframweithiau'r CCS gan gyrff sector cyhoeddus ar gyfer gwariant cyhoeddus o £12.8 biliwn yn 2015-16. Yn 2015-16, prynodd y CCS hefyd werth £2.5 biliwn o nwyddau a gwasanaethau cyffredin ar ran adrannau'r llywodraeth.

- 12 Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio ei chronfeydd wrth gefn i gwrdd â'r diffyg hwn, sefyllfa fydd yn parhau'n flynyddol tan ddiwedd 2017-18 o leiaf⁸. Mae Bwrdd GCC a Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod ariannu GCC yn broblem. Lleisiwyd pryder y gallai codi mwy o ad-daliad ar gyflenwyr eu hatal rhag bidio am contractau, er bod y gyfradd o 0.45% yn is na'r ad-daliad a godir gan rai sefydliadau prynu cyhoeddus eraill. Mae Bwrdd GCC yn awr wedi cytuno i ad-daliad uwch o hyd at 1.5% lle bo hynny'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o'r fframweithiau'n aros ar 0.45% oherwydd bod y penderfyniad i ganiatáu ad-daliad uwch wedi'i wneud ar ôl i'r rhan fwyaf o'r fframweithiau presennol gael eu gosod. I GCC fod wedi adennill ei gostau yn 2016-17, byddai wedi bod angen codi ad-daliad o tua 1.2% ar y gwariant i gyd, neu byddai wedi bod angen gwariant o tua £622 miliwn gydag ad-daliad o 0.45%.
- 13 Mae GCC wedi adrodd arbedion ariannol i gyrff cyhoeddus sy'n fwy na'i gostau gweithredu, ochr yn ochr â manteision ehangach yn deillio o'i weithgareddau, er enghraifft i economi Cymru. Yn Awst 2017 dywedodd GCC fod arbedion o £14.8 miliwn wedi eu gwneud ar gyfer 2016-17, drwy gyfuniad o arbedion i ryddhau arian parod, prosesau mwy effeithlon ac osgoi costau. Mae'r ffigurau arbedion wedi bod yn sylweddol is na rhai amcan-arbedion cynnar ac mae rhai aelodau'n anghytuno â'r ffigurau arbedion⁹. Roedd yr achos busnes ar gyfer sefydlu GCC wedi amcangyfrif y byddai GCC yn cynhyrchu arbedion o £25 miliwn y flwyddyn o'r 1 Ebrill 2016 ymlaen¹⁰. Fodd bynnag, roedd yr amcangyfrifiad hwnnw'n seiliedig ar ragolwg gwariant drwy GCC – o hyd at £522 miliwn – oedd yn llawer mwy na'r hyn a wariwyd mewn gwirionedd.
- 14 Er bod y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus a holwyd gennym yn 2016 yn dal i gefnogi GCC mewn egwyddor, dim ond traean o'r aelodau oedd yn fodlon â'r gwasanaeth. Roedd y materion pryder a godwyd gyda ni gan aelodau'n cynnwys pa mor gystadleuol oedd y fframweithiau, y manteision ehangach a gallu ateb blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys yng nghyswllt y Gymraeg a datblygu cynaliadwy.

8 Gyda thystiolaeth o gynnydd pellach mewn gwariant drwy fframweithiau GCC yn ystod hanner cyntaf 2017-18, a mwy o fframweithiau bellach yn destun ad-daliad, disgwylir i GCC cynhyrchu incwm o £1 miliwn o leiaf yn 2017-18. Yr arwyddion cynnar yw y bydd yn cynhyrchu mwy na hyn, ar sail yr incwm o £0.5 miliwn a wnaed yn chwarter cyntaf 2017-18.

9 Ar gais Cyfarwyddwr GCC, mae gwasanaeth archwilio mewnol Llywodraeth Cymru wedi cyflawni dau archwiliad o'r trefniadau ar gyfer adrodd arbedion ac wedi adnabod rhai meysydd lle mae angen gwella o ran mesur ac adrodd ffigurau arbedion. Mae GCC yn ymateb i'r materion hyn.

10 Roedd yr achos busnes yn amcangyfrif y byddai £9m (36%) o'r arbedion £25 miliwn yn arbedion rhyddhau arian parod.

- 15 Yn ogystal, mae rhai cyrff cyhoeddus yn poeni nad yw GCC yn ddigon annibynnol i Lywodraeth Cymru. Un o'r prif bryderon yw bod cydbwysedd ffocws GCC yn tueddu i fod ar faterion cenedlaethol yn hytrach na blaenoriaethau lleol a bod gan Lywodraeth Cymru ddylanwad anghymesur dros GCC. Ym mis Medi 2017, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol fod Llywodraeth Cymru'n bwriadu ailwampio rôl GCC a rôl Gwerth Cymru¹¹ i sicrhau'r manteision mwyaf posib o gaffael cyhoeddus. Fel y dywedwn ym **mharagraff 4**, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu uno Bwrdd GCC a'r Bwrdd Caffael Cenedlaethol.
- 16 Yn Rhagfyr 2016, cafwyd adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar weithrediad Gwasanaeth Masnachol y Goron gan lunio casgliadau oedd mwy neu lai'n adlewyrchu rhai o'r materion sy'n berthnasol i ddatblygiad GCC (**Atodiad 1**). Casglodd yr adroddiad nad yw'n bosib dangos bod Gwasanaeth Masnachol y Goron wedi cyflawni mwy nag y byddai adrannau wedi'i gyflawni fel arall drwy brynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith cyffredin eu hunain.

11 Mae Gwerth Cymru'n un o adrannau Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am wella'r arfer o gaffael cyhoeddus ac am helpu cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru i ddarparu gwerth am arian gwell o wariant gan drydydd partïon. Mae Gwerth Cymru hefyd yn gorchwyllo gwaith caffael Llywodraeth Cymru ac yn cefnogi cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru.

Argymhellion

- 17 Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar [Gaffael Cyhoeddus yng Nghymru](#) (Hydref 2017) yn argymhell, wrth symud ymlaen gyda'i chynlluniau i uno'r Bwrdd Caffael Cenedlaethol a Bwrdd GCC, y dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir ar ei gwefan beth oedd y strwythur llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru. Wrth geisio ateb yr argymhelliad hwnnw, byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gynnwys manylion am rôl, cyfrifoldeb a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer GCC.

Argymhellion

- R1 Er bod cyrff cyhoeddus ar y cyfan yn derbyn yr egwyddor bod angen gwasanaeth caffael cenedlaethol, i fod yn llwyddiant rhaid i GCC fod yn fframwaith dewis cyntaf. Mae llawer o aelodau GCC yn anfodlon ac mae'r defnydd llai na'r disgwyl o fframweithiau GCC wedi arwain at bryderon ynghylch ei ariannu. **Argymhellwn fod GCC:**
- a **yn nodi'n llawn y rhesymau pam fod ei aelodau'n dewis defnyddio trefniadau lleol neu gonsortia neu sefydliadau prynu cyhoeddus eraill i brynu nwyddau a gwasanaethau cyffredin ac ailadroddus a ddarperir drwy fframweithiau GCC;**
 - b **yn datblygu cynllun gweithredu i weithio gyda chyrff cyhoeddus i egluro beth yw manteision defnyddio GCC i brynu nwyddau a gwasanaethau cyffredin ac ailadroddus, a'u hannog i'w ddefnyddio;**
 - c **yn ystyried oni allai fframweithiau a chontractau ymrwymo mwy i feintiau a mesur faint o awydd sydd ymhlith aelodau i ddatblygu manylebau ar y cyd;**
 - d **yn ystyried y posibilrwydd o fframweithiau mwy rhanbarthol i roi mwy o gyfle i fusnesau bach a chanolig; a**
 - e **yn holi ei aelodau, a rhai nad ydynt yn aelodau, yn flynyddol i gasglu eu barn am ei wasanaeth.**
- R2 Er bod gan GCC system lle gall ei aelodau wneud cais i optio allan o ddefnyddio fframweithiau a chontractau GCC, nid yw hyn yn gweithio. Yn lle mynd drwy'r broses ffurfiol o optio allan, nid yw rhai cyrff cyhoeddus yn defnyddio fframweithiau na chontractau GCC. Er bod Bwrdd GCC wedi cyfaddef nad oedd y broses yn gweithio, roedd y Bwrdd wedi cytuno y byddai'r broses optio allan yn aros. **Argymhellwn wrth ymgynghori â'i aelodau, bod GCC yn adolygu'r broses optio allan ac yn gwneud newidiadau i sicrhau ei bod yn hawdd ei deall, yn ystyrion ac yn cael ei chymhwyso'n gyson.**

Argymhellion

- R3 Pwrpas codi ad-daliad gorfodol ar gyflenwyr oedd talu am gostau gweithredu GCC o'r 1 Ebrill 2016 ymlaen, ond yn 2016-17 dim ond £0.9 o incwm a gynhyrchodd GCC o'i gymharu â gwariant o £2.8m. Er bod arwyddion y bydd yr incwm yn cynyddu'n sylweddol yn 2017-18, ni ddisgwylir iddo dalu am y costau gweithredu. **Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru, GCC a sefydliadau eraill sy'n aelodau o GCC yn cytuno ar drefniant ariannu cynaliadwy i roi sylfaen ariannol gref i GCC.**
- R4 Mae adroddiad blynyddol GCC yn nodi'r prif bethau a gyflawnwyd yn y flwyddyn, fel nifer y fframweithiau a ddyfarnwyd, cyfanswm yr arbedion arian parod a wnaed, a faint o swyddi a grewyd. Mae hefyd yn rhoi manylion am werth posib y fframweithiau. Ond gallai hyn arwain at gamddealltwriaeth oherwydd nid yw'n nodi faint yn union o wariant a ddigwyddodd drwy fframweithiau GCC yn ystod y flwyddyn, sy'n allweddol i faint o incwm a gynhyrchir drwy'r ad-daliad gorfodol ar gyflenwyr ac yn ddangosydd allweddol o'r defnydd a wneir o fframweithiau GCC. **Argymhellwn mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol bod GCC yn cynnwys crynodeb, yn yr adran ar y prif gyflawniadau, o'r union wariant a ddigwyddodd drwy ei fframweithiau.**
- R5 Lleisiodd aelodau GCC, yn enwedig awdurdodau lleol, bryderon fod fframweithiau GCC yn cyfyngu ar gyfleoedd i gefnogi eu heconomi leol drwy gcontractio â busnesau bach a chanolig. Er bod GCC yn adrodd ar faint o fusnesau bach a chanolig sydd ar ei fframweithiau, **argymhellwn fod GCC yn gwneud ei aelodau'n fwy ymwybodol o'r darpariaethau y mae'n ei wneud drwy ei amrywiol sianeli adrodd.**

Roedd gwendidau yn natblygiad y cynllun busnes ar gyfer GCC, gan gynnwys modelu'r gofynion staffio ynghyd â sgôp tebygol a dylanwad GCC

- 1.1 Yn 2012 datblygodd Llywodraeth Cymru achos busnes ar gyfer gwasanaeth caffael cenedlaethol. Y prif amcan oedd i 'brynu unwaith i Gymru' ar ran y sector cyhoeddus mewn meysydd gwariant cyffredin ac ailadroddus a gwreiddio Datganiad Polisi Caffael Cymru o fewn pob contract a fframwaith.
- 1.2 Roedd yr achos busnes yn cyflwyno'r achos dros newid a'r ffordd orau o symud ymlaen. Fodd bynnag, nid oedd cynnwys yr achos busnes na'r broses ar gyfer ei ddatblygu'n cydymffurfio'n llawn ag arferion gorau mabwysiedig Llywodraeth Cymru o ddefnyddio'r 'Model Pum Achos' (Blwch 2).

Blwch 2 – y Model Pum Achos

Mae'r Model Pum Achos yn darparu fframwaith ac adnoddau i wneud penderfyniadau effeithiol wrth gwmpasu a chynllunio cynigion gwariant mewn ffordd drylwyr a chadarn a gellir ei ddefnyddio ar gyfer strategaethau, rhaglenni a phrosiectau unigol. Mae'n gofyn ystyried pum peth:

- yr achos strategol – cydweddu strategol ac amcanion buddsoddi clir;
